

Drwy e-bost



8 Hydref 2020

Annwyl Bennaeth Canolfan

Yr wybodaeth ddiweddaraf: Dyfarnu 2021, cymwysterau galwedigaethol, cyfres Tachwedd, Haf 2020 a chyfathrebu

Gobeithio'ch bod yn cadw'n dda. Rydym yn ymwybodol o'r amgylchiadau heriol y mae ysgolion a cholegau'n parhau i'w hwynebu wrth i bandemig y coronafeirws effeithio ar y gwaith o ddarparu addysgu a dysgu ledled Cymru. Rydym i gyd yn gorfod dod o hyd i ffordd drwy'r cyfnod ansicr hwn lle mae angen addasu'n gyflym a bod yn hyblyg, ac er ein bod yn wynebu problemau gwahanol, rydym yn rhannu'r nod cyffredin o ddiogelu buddiannau dysgwyr.

Gwyddom fod pryderon ynghylch hyfywedd cynnal asesiadau arholiad yn 2021 ar ôl i'r pandemig darfu ar addysgu a dysgu arferol, a bod pryderon ynghylch cynnal arholiadau wedi'u hamserlennu pan nad oes yr un ohonom yn siŵr beth fydd y sefyllfa yr haf nesaf. Rydym yn cydnabod bod angen mwy o sicrwydd ynglŷn â threfniadau a gallwn roi sicrwydd i chi ein bod yn parhau'n ymrwymedig i sicrhau bod y gofynion asesu yn 2021 mor deg â phosibl. Mae'r llythyr hwn yn amlinellu rhywfaint o'r gwaith sydd ar y gweill i ddarparu'r eglurder yr ydych yn ei geisio.

Grŵp rhanddeiliaid 2021

Rydym wedi sefydlu grŵp rhanddeiliaid allanol gan gynnwys cynrychiolwyr o ASCL (sy'n cynrychioli barn arweinwyr ysgolion), CLILC, Consortia Rhanbarthol, UCAS, CCAC, Prifysgolion Cymru (sy'n cynrychioli addysg uwch), Comisiynydd Plant Cymru, ColegauCymru (sy'n cynrychioli Addysg Bellach), Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW), y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, a Ffederasiwn Busnesau Bach (sy'n cynrychioli cyflogwyr). Mae'r grŵp hwn wedi cyfarfod ddwywaith dros y pythefnos diwethaf i ystyried opsiynau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222



www.cymwysteraucymru.org

Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Adolygiad annibynnol a Chyngor i'r Gweinidog Addysg

Byddwch yn ymwybodol bod y Gweinidog Addysg wedi comisiynu adolygiad annibynnol o'r broses o ddyfarnu cymwysterau yn 2020 a bod hyn yn cynnwys argymhellion ar gyfer 2021. Disgwylir y bydd yr adolygiad annibynnol yn darparu adroddiad interim ddiwedd mis Hydref a fydd yn llywio'r trefniadau ar gyfer 2021.

Mae'r Gweinidog hefyd wedi ysgrifennu atom yn gofyn am gyngor ar opsiynau ar gyfer 2021. Bydd ein Bwrdd yn ystyried barn grŵp Rhanddeiliaid 2021 wrth roi'r cyngor hwn. Disgwyliwn ddarparu, a chyhoeddi, cyngor i'r Gweinidog cyn bo hir.

Penderfyniad y Gweinidog ynghylch dyfarnu yn 2021

Mae'r Gweinidog wedi ysgrifennu atom yn gofyn am gyngor ar yr opsiynau ar gyfer 2021. Byddwn yn darparu, ac yn cyhoeddi, cyngor i'r Gweinidog cyn bo hir. Bydd ein cyngor ni, argymhellion yr adolygiad annibynnol, a barn rhanddeiliaid yn helpu'r Gweinidog i benderfynu ar y dull cyffredinol o ymdrin â'r trefniadau asesu ar gyfer 2021 ddiwedd y mis hwn. Yn dilyn penderfyniad y Gweinidog, byddwn yn gweithio'n agos gydag ysgolion a cholegau, athrawon, cyrff dyfarnu ac eraill i sicrhau bod y dull cytûn yn cael ei roi ar waith cyn gynted ac yn ddidrafferth â phosibl.

Cymwysterau galwedigaethol

Rydym yn parhau i weithio ochr yn ochr â'n cyd-reoleiddwyr (Ofqual yn Lloegr a CCEA Regulation yng Ngogledd Iwerddon) ar y trefniadau asesu ar gyfer cymwysterau galwedigaethol eleni. Cyn bo hir, byddwn yn cyhoeddi ein Fframwaith Rheoleiddio Arbennig Estynedig ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol (Amodau, Gofynion a Chanllawiau). Mae'r fframwaith yn nodi'r egwyddorion y mae'n rhaid i gyrff dyfarnu eu dilyn wrth ystyried pa addasiadau i'w gwneud i gymwysterau er mwyn lliniaru effaith yr amhariad ar addysgu, dysgu ac asesu. Mae cyrff dyfarnu eisoes wedi cyfleu'r dulliau arfaethedig o ymdrin â rhai cymwysterau i ganolfannau, a bydd y manylion ar gyfer pob cymhwyster arall yn cael eu rhannu â chanolfannau erbyn 23 Hydref.

Cyfres Tachwedd

Bydd cyfres arholiadau mis Tachwedd yng Nghymru ar gyfer cymwysterau TGAU CBAC mewn Saesneg Iaith, Cymraeg Iaith, Mathemateg a Mathemateg Rhifedd yn parhau fel y'i cynlluniwyd. Disgwyliwn i hyn gael ei ddefnyddio fel cyfres ailsefyll o ystyried parodrwydd tebygol dysgwyr yn dilyn y lefelau sylweddol o darfu ar y Flwyddyn 11

bresennol. Mae arholiadau yn y pynciau hyn wedi'u hamserlennu i'w cynnal rhwng 2 ac 11 Tachwedd 2020.

Haf 2020

Yn dilyn ein hymddangosiad gerbron pwyllgor CYPE ar 18 Awst 2020, ac i lywio'r adolygiad annibynnol, rydym yn cyhoeddi dau gyhoeddiad pellach ar ystadegau swyddogol y mis hwn. Disgwylir i'r cyhoeddiad cyntaf gael ei gyhoeddi ar 12 Hydref a bydd yn canolbwyntio ar amrywiadau mewn canlyniadau yn ôl canolfannau, awdurdodau lleol a rhanbarthau. Mae'r ail gyhoeddiad, y gobeithir ei gyhoeddi ar 28 Hydref, yn asesiad manylach o'r effaith ar gydraddoldeb, a fydd yn rhoi mwy o wybodaeth am ganlyniadau ar lefel dysgwr ac ar draws pynciau.

Cyfathrebu

Gwyddom fod angen rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ddatblygiadau ac, yn bwysig, rhoi gwybod i chi pryd y bydd rhagor o wybodaeth ar gael, felly rydym wedi ymrwmo i gyfathrebu â chi'n fwy rheolaidd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i'n helpu i baratoi ar gyfer 2021. Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a CBAC i gysoni ein cyfathrebu, gan gofio ein rolau a'n cyfrifoldebau annibynnol.

Ffordd dda o gadw mewn cysylltiad â datblygiadau'n uniongyrchol yw ein dilyn ar Twitter a Facebook. Rydym yn cyhoeddi diweddariadau rheolaidd ar ein [gwefan](#), ac yn ein cylchlythyr i rhanddeiliaid, y gallwch danysgrifio iddo [yma](#).

I'r rheini ohonoch sy'n aros am newyddion ynglŷn â haf 2021, diolch am eich amynedd yn y cyfnod anodd hwn. Byddaf yn cysylltu bob mis i roi gwybod i chi am ddatblygiadau dros y misoedd nesaf.

Yn gywir



Philip Blaker
Prif Weithredwr